



## Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol -

Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar Gyfer Plant a  
Phobl Ifanc Yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mawrth 2017

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Mehefin 2017

## **Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am y ddogfen 'Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol - Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru' sy'n disodli'r 'Safonau Cenedlaethol ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant' (2003). Yn unol â'r fframwaith hwn gall darparwyr gwasanaethau eirioli a'r sawl sy'n eu comisiynu fod yn siŵr bod y safonau hynny yn cael eu bodloni, gan eu galluogi i ddangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

## **Sut i ymateb**

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon atom drwy'r post at:

Ruth Akers, Y Gangen Diogelu ac Eirioli, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth Ceredigion, SY23 3UR.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

### **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill**

Dylech gynnwys gyfeiriadau at y rhyngwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, ee cyfeiriad gwefan yr ymgynghoriad, atodiad manwl i'r ymgynghoriad Gellir gweld dogfennau cyfeirio y cyfeirir atynt drwy glicio ar yr hyperddolenni canlynol:

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 Cod Ymarfer Rhan 10 \(Eiriolaeth\)](#)

[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 Cod Ymarfer Rhan 6 \(Plant sy'n Derbynn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya\)](#)

[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#)

[Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#)

[Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

## Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

**Post:** Ruth Akers, Y Gangen Diogelu ac Eirioli, Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR.

**E-bost:** [takingsocialcareforward@wales.gsi.gov.uk](mailto:takingsocialcareforward@wales.gsi.gov.uk)

**Ffôn:** 0300 0262436

## Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r sylwadau a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch chyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig weithiau dros ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi nodi nad yw eisiau i'r

manylion hyn gael eu cyhoeddi. Byddem yn cysylltu  
â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud  
 unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Ymgynghori

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae Rhan 10 o'r Ddeddf yn cynnwys dyletswyddau yn ymwneud ag eiriolaeth. Mae'r cod ymarfer penodol ar eiriolaeth o dan Ran 10 yn nodi sut y gallai eiriolaeth helpu i bennu a chyflawni canlyniadau personol unigolyn, ynghyd â'r amgylchiadau pan fo rhaid i awdurdod lleol drefnu eiriolwr proffesiynol annibynnol. Mae Pennod 3 o Ran 10 o'r Ddeddf yn berthnasol i eiriolaeth ar gyfer plant ac oedolion.

Mae adran 174 o Ddeddf 2014 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth eirioli mewn perthynas â chynrychiolaeth neu gŵyn gan blentyn ynglŷn â gwasanaethau a dderbyniwyd naill ai fel plentyn sy'n derbyn gofal neu blentyn sydd angen gofal a chymorth. Plentyn sydd naill ai mewn gofal awdurdod lleol neu sy'n cael ei letya o dan swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 6 o Ddeddf 2014 yw "plentyn sy'n derbyn gofal".

Mae angen fframwaith cyson ar gomisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan adran 174 i fesur eu llwyth gwaith yn ogystal â'i ansawdd ac i gael sicrwydd eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywyd plant a phobl ifanc. O ganlyniad, mae'r Gweinidogion wedi gwahodd llywodraeth leol yng Nghymru i gyflwyno model ar gyfer sicrhau dull cenedlaethol o ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, plant sydd angen gofal a chymorth ac unigolion penodol eraill.

Cafodd Grŵp o Uwch-arweinwyr, yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, ei sefydlu i oruchwylio datblygiad y Dull Cenedlaethol. Mae'r Grŵp bellach wedi gorffen ei waith ac wedi nodi (a datblygu'r) elfennau allweddol canlynol:

- **Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol** sy'n cynnwys dull eirioli sy'n seiliedig ar 'gynnig gweithredol', fel a nodwyd yn 'Lleisiau Coll', a mapio'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer y Datganiad Llesiant sy'n sail i Ddeddf 2014.
- **Dull cenedlaethol - Manyleb Gwasanaethau Rhanbarthol** yn darparu manylebau cyson ar gyfer comisiynu gwasanaethau.
- **Dull Cenedlaethol - Tpled ar gyfer Adroddiad ar Berfformiad Rhanbarthol** yn darparu'r dystiolaeth a'r ystadegau a nodwyd yn y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol at ddibenion monitro perfformiad ac ansawdd gwasanaethau.
- **Dull o Asesu Ystod a Lefel y Gwasanaeth Angenrheidiol (Capasiti Gwasanaeth)** sy'n helpu i fesur gofynion capasiti gwasanaethau a'r costau cysylltiedig.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn am 'Gwasanaethau Eirioli Proffesiynol Annibynnol - Fframwaith Safonau a Chanlyniadau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru' ('y Fframwaith').

Mae fersiwn i bobl ifanc o'r Fframwaith wedi'i llunio hefyd.

## Lle ydyn ni arni?

Mae Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn datblygu Dull Cenedlaethol ar hyn o bryd drwy gynllun gweithredu y cytunwyd arno gan bob awdurdod lleol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gymwys i'r Fframwaith Safonau a Chanlyniadau sy'n rhan o'r dull cenedlaethol y mae Llywodraeth Cymru yn arwain arno.

Diben y Fframwaith yw:

- disodli'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (2003) a nodi'r canlyniadau y gall plant a phobl ifanc eu disgwyl mewn perthynas ag eiriolaeth plant a phobl ifanc.
- sicrhau bod darparwyr gwasanaethu eirioli a'r rheini sy'n eu comisiynu yn gallu bod yn sicr bod y safonau hynny yn cael eu cyflawni, gan eu galluogi i ddangos tystiolaeth eu bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.
- cysylltu'r Safonau a'r Datganiad Llesiant cyffredinol o dan Ddeddf 2014 a dangos sut y gall awdurdodau lleol ddangos tystiolaeth o'r ffordd y bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant drwy gael mynediad at eiriolaeth.
- darparu i blant ag anghenion gofal a chymorth arbennig sy'n cael mynediad at wasanaethau eirioli wybodaeth am yr hyn y mae ganddynt hawl iddo, a sut y gallant gymryd rhan i ddatblygu a gwerthuso'r gwasanaethau.

Mae'r Fframwaith yn gymwys i blant sy'n derbyn gwasanaethau statudol o dan Ddeddf 2014. Mae gwaith tebyg ar y gweill ar y gofynion ar gyfer gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') a fydd yn gymwys i blant **ac** oedolion yng Nghymru. Rhaid alinio'r ddau ddarn o waith hwn yn ofalus er mwyn osgoi unrhyw benbleth i gomisiynwyr a darparwyr.

Bydd Grŵp Technegol yn cael ei gynnull dros y gwanwyn/haf i gynghori'r Gweinidogion ar y ffordd orau o fynd ati. Byddwn yn cadw mewn cof bod angen sicrhau bod y ddau weithgarwch yn cael eu cydlynu er mwyn llunio set resymegol a sylweddol o ganlyniadau a safonau ar gyfer plant sy'n derbyn darpariaeth eirioli statudol drwy'r dull cenedlaethol, a set o ofynion y gellir rheoleiddio gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol cenedlaethol yn unol â hwy o dan Ddeddf 2016.

Bydd y Grŵp Technegol yn cynghori ar:

- a) ddiweddarau Rhan 10 y Cod Ymarfer ar eiriolaeth o dan Ddeddf 2014 i ystyried y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Plant. Bydd hyn yn galw am gynnwys y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau yn llawn i fodloni'r ymrwymadau a wnaed cyn hyn
- b) Diffinio Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a nodi'r safonau perthnasol ar gyfer y gwasanaeth eirioli a reoleiddir o dan Ddeddf 2016.

Bydd y Grŵp Technegol yn ystyried yr ymgynghoriad hwn a'r ymatebion a dderbyniwyd wrth baratoi'r cyngor.

Pan fydd y Grŵp Technegol wedi cwblhau ei waith rydym yn bwriadu gosod Cod Ymarfer Rhan 10 ar eiriolaeth diwygiedig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hwyrach eleni, wrth inni ddatblygu'r diffiniad o Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol mewn rheoliadau o dan y Ddeddf.

**GWASANAETHAU EIRIOLI PROFFESIYNOL ANNIBYNNOL -  
FFRAMWAITH SAFONAU A CHANLYNIADAU CENEDLAETHOL AR GYFER  
PLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU**

**Ffurflen Ymateb**

**i'r**

**Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n briodol)

E-bost / Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**1. A fydd y fframwaith hwn yn helpu darparwyr a chomisiynwyr gwasanaethau eirioli i sicrhau bod ansawdd eu gwasanaeth yn gyson ledled Cymru?**

**Bydd**

**Na fydd**

**Ddim yn siŵr**

Rhowch eich sylwadau:

**2. A fydd y fframwaith hwn yn helpu i roi dealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan wasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy'n eu defnyddio, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol felly i'w bywydau?**

**Bydd**

**Na fydd**

**Ddim yn siŵr**

Rhowch eich sylwadau:



3. A fydd y fframwaith hwn yn helpu'r rheini sy'n comisiynu gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol i sicrhau ansawdd eu trefniadau comisiynu ac yn cynnig modd o ddangos tystiolaeth o ddarparu gwasanaethau eirioli sydd o ansawdd uchel ac yn effeithiol?

Bydd

Na fydd

Ddim yn siŵr

Os na fydd, rhowch fanylion:

4. A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig gweithredol o gymorth eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ddigon o wybodaeth am y gwasanaethau eirioli sydd ar gael a'u bod yn deall yn well sut i gael mynediad atynt pan fydd angen?

Rhowch fanylion:

5. A ydych chi'n meddwl y bydd y fframwaith hwn yn helpu i sicrhau bod y cynnig gweithredol o eiriolaeth yn cael ei wneud mewn modd cyson a threfnus ledled Cymru?

Bydd

Na fydd

Ddim yn siŵr

Rhowch fanylion:

6. Mae diddordeb gan Lywodraeth Cymru ddeall a fydd y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw: oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa rai a pham/pam lai?

Bydd

Na fydd

Rhowch fanylion:

7. Hoffem glywed eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
- ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

**Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Rhowch fanylion:

8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi cyfeirio atynt yn benodol, mae croeso i chi eu nodi isod

Mae'n debygol y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os hoffech inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, ticiwch yma: